



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**

Gogledd Cymru



Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Choetiroedd

// Cerdded / rhedeg / beicio mynydd
a mwy yng Ngogledd Cymru



www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales



**Cymru
Wales**



NATU065 03/20

LLWYBRAU AR GAU A DARGYFEIRIADAU

Roedd gwybodaeth ynglŷn ag ymweld â'n coetiroedd a'n gwarchodfeydd yn gywir pan gyhoeddwyd y daflen hon. Os ydych yn cynllunio taith ar hyd llwybr penodol, edrychwch ar ein gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Sylwer:

- Weithiau, mae angen i ni gau neu ddargyfeirio llwybrau er diogelwch, wrth i ni wneud gwaith cynnal a chadw neu unrhyw waith arall.
- O bryd i'w gilydd, efallai y bydd yn rhaid inni gau safle oherwydd tywydd eithafol, fel gwyntoedd cryfion neu eira a rhew, rhag ofn i ymwelwyr neu staff gael eu hanafu.
- Dylech bob amser ddilyn unrhyw gyfarwyddiadau ar y safle a sicrhau eich bod yn dilyn unrhyw arwyddion dargyfeirio droso.

traveline .cymru

Y gwasanaeth trafniadaeth gyhoeddus i Gymru

Cliciwch neu ffoniwch i gynllunio eich taith a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am amserlenni

www.traveline.cymru

Ap am ddim!

Rhafffôn

0800 464 0000

Trên nesaf 13:24

Bydlau nesaf

11:06
12:16
12:47
13:19

CADWCH MEWN CYSYLLTIAD

TravelineCymru

DYSGWCH FWY

www.cyfoethnaturiol.cymru
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
 0300 065 3000 (Llun-Gwener 9yb-5yp)

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn fformat arall, cysylltwch â ni.

Clawr blaen: Parc Coedwig Gwydir



© Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

CROESO

Bydd y daflen hon yn eich helpu i gynllunio ymweliad â'r lliaws o goetiroedd a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yr ydym yn gofalu amdanynt yng Ngogledd Cymru.

Mae gan y Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yr enghreifftiau gorau o gynefinoedd bywyd gwylt a nodweddion daearegol, ac mae Gogledd Cymru yn gartref i lawer o'r lleoedd arbennig hyn. Mae'r daflen hon yn cynnwys rhai o'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol gorau i ymweld â nhw, o wychder garw Cadair Idris i dwyni tywod Niwbwrch.

Mae Gogledd Cymru hefyd yn gartref i barciau coedwig

a choetiroedd heddychlon sydd â llwybrau cerdded wedi'u marcio. Mae'r rhain yn amrywio o deithiau cerdded braf ar lan afon i rai mwy anodd. Mae sawl llwybr hygyrch ar gael hefyd.

Mae ein coetiroedd hefyd yn gartref i rai o'r llwybrau beicio mynydd gorau ym Mhrydain, ynghyd â llwybrau rhedeg, cyfeiriannau, a llwybrau darganfod i ymwelwyr iau.

Mwynhewch eich ymweliad â'r awyr agored!

CYNLLUNIWC EICH YMWELIAD

Defnyddir y codau lliw ar gyfer y **tudalennau rhestru** am y coetiroedd a'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol i ddangos ble mae pob un wedi'i lleoli.

- Ardal Dinbych**
- Ardal Bangor**
- Ardal Betws-y-coed**
- Ardal Beddgelert**
- Ardal Dolgellau**

Mae'r **map plygu allan** yn nodi lleoliad pob coetir a gwarchodfa yn y daflen hon. Ceir hefyd restr ohonynt gyda **chrynodeb o'r cyfleusterau** ym mhob un.

Mae'r map yn cynnwys **allwedd i'r symbolau** a ddefnyddir ar y tudalennau rhestru. Mae yna ganllaw hefyd ar **sut rydym yn graddio ein llwybrau** i'ch helpu i ddewis un sy'n addas i chi.

Gweler y **wybodaeth hygyrchedd** ar y tudalennau rhestru ar gyfer llwybrau sy'n addas i bobol â chadeiriau olwyn a chadeiriau gwithio, a chyfleusterau eraill.





1 **Coed Moel Famau**
Diwrnod gwych i'r teulu gyda
llwybrau cerdded, beicio
mynydd a mannau chwarae



Mae Coed Moel Famau yn goedwig fawr sydd wedi'i lleoli yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae un o'r llwybrau cerdded oddi yma yn mynd i gopa Moel Famau, y pwynt uchaf yn yr AHNE.

Mae adeilion Tŵr y Jiwbil i'w gweld ar y copa. Gellir gweld yr heneb eiconig hon o filltiroedd, ac mae ganddi olygfeydd heb eu hail o ogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr o'i chwmpas. Mae yna sawl taith gerdded arall o'r maes parcio a llwybr beicio mynydd wedi'i raddio'n las.

Cyfleusterau plant

Mae'r mannau chwarae mawr yn addas i blant rhwng 2 i 14 oed. Mae yna Gedrwydden Gysglyd i ddringo i mewn

iddi, Nyth Hebog i gropian trwyddo a Chrud Aderyn i siglo y tu mewn iddo, yn ogystal â'r nodwedd ddŵr Llif y Cerrig i badlo ynddi a'r Bont Sigledig i fentro drosodd.

Gall ditectifs anifeiliaid addawol ddilyn Llwybr Traciwr y Goedwig a dyfalu pa anifail sy'n perthyn i ba un.



Gwybodaeth hygyrchedd

Mae'r Llwybr Hygyrch yn daith fer, wastad yn syth o'r maes parcio drwy'r coetir. Mae yna le parcio ar gyfer deiliaid bathodyn glas a thoiledau hygyrch.

Llwybrau cerdded

Llwybr Traciwr y Goedwig
(1 filltir/1.7 km, hawdd)

Cymerwch daflen o'r peiriant yn y maes parcio a dilynwch y llwybr i ddod o hyd i gliwiau am y gwahanol anifeiliaid sy'n byw yn y goedwig.

Cylch Llarwydd
(1½ milltir/2.4 km, hawdd)

Taith hamddenol drwy'r coed at olygfan.

Cylch Tŵr y Jiwbil
(3½ milltir/5.8 km, cymedrol)

Dringfa serth, gyson drwy'r goedwig i gopa Moel Famau, y pwynt uchaf ym mrynau Clwyd, gyda golygfeydd ysblennydd o Dŵr y Jiwbil. Mae'r llwybr yn dychwelyd drwy gefn gwlad agored ac yn dilyn Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa am beth o'r ffordd.

Cylch Mynydd Ffridd
(7¼ milltir/12.4 km, anodd)

Mae'n mynd drwy'r goedwig gyda dringfa gyson i bwynt uchel sydd â golygfeydd dros Lannau Mersi a thu hwnt. Gall beicwyr mynydd ddefnyddio'r llwybr hwn hefyd.

Llwybrau cerdded eraill

Mae'r **Llwybr Gardd Goedwig** yn daith gerdded fer trwy goed brodorol Prydain.

Mae'r **Llwybr Hygyrch** yn mynd drwy'r coetir ac wrth ochr nant.



Llwybr beicio mynydd

Cylch Mynydd Ffridd
(12.4 km, gradd las)

Mae'r daith hon yn gwau ei ffordd drwy'r goedwig, gan ddringo'n raddol i bwynt uchel sydd â golygfeydd ysblennydd. Dilyniad disgyniad gwych gan fwy o llwybr ceffylau a lle i groesi nant. Yna, rhaid dringo i fyny i ffordd goedwig cyn y gorffeniad cyflym i'r maes parcio. Darllenwch y panel gwybodaeth graddio llwybrau ar gychwyn y llwybr neu ar dudalen 40 i wneud yn siŵr mai hwn yw'r llwybr iawn i chi. Dylech fod yn ymwybodol o eraill sy'n rhannu'r llwybr ceffylau cyhoeddus hwn.

Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa

Mae Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa yn croesi Moel Famau. Mae Cylch Tŵr y Jiwbil yn dilyn y Llwybr Cenedlaethol hwn am beth o'r ffordd.

Parc Gwledig Loggerheads

Dwy filltir o Goed Moel Famau, mae yna ganolfan ymwelwyr a llwybrau cerdded ym Mharc Gwledig Loggerheads (a reolir gan Gyngor Sir Ddinbych).

Sut i gyrraedd yma

Mae Coed Moel Famau 5 milltir i'r de-orllewin o'r Wyddgrug.

Cymerwch yr A494 o'r Wyddgrug i Ruthun. Ar ôl y fynedfa i Barc Gwledig Loggerheads, trowch i'r dde gan ddilyn yr arwydd brown a gwyn i Barc Gwledig Moel Famau. Ar ôl un filltir, mae maes parcio Coed Moel Famau ar y dde. Mae'r tâl parcio yn daladwy wrth atalfa'r fynedfa. Gallwch brynu trwydded barcio flynyddol – gweler ein gwefan am fanylion.

Cyfeirnod grid OS SJ 170 610 / rhif map OS 265

Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



2 Coed Llangwyfan

Coetir gyda thaith gerdded i fryngaer ddramatig o'r Oes Haearn



Coed Llangwyfan yw'r man cychwyn ar gyfer taith gerdded wedi'i marcio sy'n cynnwys golygfeydd panoramig. Wedi'i lleoli yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, mae'r goedwig heddychlon hon yn codi'n serth iawn o'r nant ar ei gwaelod i fyny i lethrau o rug. Ceir llwybr cerdded wedi'i farcio drwy'r coetir. Mae yna sawl llwybr troed a llwybrau ceffylau cyhoeddus ar gael hefyd o'r maes parcio mawr, gan gynnwys Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa.

Llwybr cerdded
Llwybr Coed Llangwyfan
(2 filltir/5.8 km, cymedrol)

Mae'r llwybr hwn yn disgyn yn raddol ar lwybr serth drwy goed conwydd sy'n agor allan i roi golygfeydd o'r dyffryn. Ceir golygfan ar y pwynt hanner ffordd sy'n cynnwys golygfeydd eang o Ddyffryn Clwyd.

Llwybr Cenedlaethol
Clawdd Offa

Mae'r llwybr pellter hir hwn yn mynd drwy Goed Llangwyfan a gallwch ymuno ag ef o'r maes parcio. Mae'n mynd i gyfeiriad bryngaer o'r Oes Haearn, sy'n un o'r rhai mwyaf yng Nghymru, ar gopa Penycloddiau.

Sut i gyrraedd yma

Mae Coed Llangwyfan 5 milltir i'r dwyrain o Ddinbych. O'r A525 i'r de o Ddinbych, cymerwch y ffordd fach sy'n mynd i gyfeiriad Llandyrnog o'r gylchfan. Ewch yn syth ymlaen wrth y gylchfan nesaf. Cymerwch y chwith nesaf ac mae prif faes parcio Coed Llangwyfan ar y chwith ar ben y bryn, ar ôl mynd heibio i gilfan fach.

Cyfeirnod grid OS SJ 138 668 / rhif map OS 265
Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



3 Coed Nercwys
Coetir llawn hanes gyda llwybr i gerddwyr a beiciau



Ar yr olwg gyntaf, mae Coed Nercwys yn goetir conwydd rhyfeddol. Ond wrth i chi ddilyn y llwybr, byddwch yn dod ar draws olion hanesyddol sy'n rhoi awgrym i chi ynglŷn â sut y bu pobol yn byw a gweithio yma. Wedi'i leoli yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, mae'r coetir yn gynefin ardderchog i fywyd gwylt - sylwch ar fodaod, drywod eurban a thitwod penddu. Mae'r llwybr cerdded a'r llwybr beicio mynydd yn dilyn llwybr tebyg, ond maent wedi'u marcio fel bod cerddwyr a beicwyr yn dilyn y llwybr i gyfeiriadau gwahanol. Gall marchogion hefyd ddefnyddio'r llwybr beicio mynydd.

Llwybr cerdded
Llwybr Cerdded Coed Nercwys
(2¼ milltir/4.4 km, cymedrol)

Mae'r llwybr cylchol hwn yn cychwyn o'r maes parcio ar drac llydan, cyn mynd ar lwybr drwy'r goedwig, gan fynd heibio i adfeilion mwyinglawdd plwm. Edrychwch am lwybr troed i hen fwthyn bugail sydd â gweigrloedd blodau gwylltyn a pherllan wedi'i hailblannu. Tua diwedd y llwybr cerdded, ceir golygfan sydd â golygfeydd panoramig.

Llwybr beicio mynydd
Llwybr Beicio Coed Nercwys
(3.8 km, gradd las)

Mae'r llwybr hwn yn cychwyn ar ffordd goedwig lydan ac yna'n dilyn traciau mwy cul ar lwybr cylchol drwy'r coetir. Darllenwch y panel gwybodaeth graddio llwybrau ar gychwyn y llwybr neu ar dudalen 40 i wneud yn siŵr mai hwn yw'r llwybr iawn i chi. Dylech fod yn ymwybodol o gerddwyr a marchogion eraill sy'n rhannu'r llwybr hwn.

Sut i gyrraedd yma

Mae Coed Nercwys 4 milltir i'r de-orllewin o'r Wyddgrug. Dilynwch yr arwyddion ar gyfer Nercwys o'r Wyddgrug. Parhewch dros y groesffordd yn Nercwys ac, ar ôl 1 filltir, trowch i'r chwith i Ffordd Cae Newydd. Cymerwch y troad cyntaf ar y dde a pharhau am 250m i'r maes parcio.
Cyfeirnod grid OS SJ 218 592 / rhif map OS 265
Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



4 **Coedwig Clocaenog (Bod Petryal)**

Safle picnic heddychlon ger llyn gyda llwybr cerdded a beicio byr



Mae Coedwig Clocaenog yn goedwig fawr, heddychlon gyda milltiroedd o lwybrau cyhoeddus a ffyrdd coedwig tawel sy'n ddelfrydol ar gyfer beicio. Mae Bod Petryal yn un o blith sawl maes parcio yng Nghoedwig Clocaenog ac mae ganddo safle picnic wedi'i osod o amgylch llyn prydferth. Arferai'r ardal hon fod yn rhan o Ystâd Pool Park ac mae Bod Petryal wedi'i enwi ar ôl hen fwthyn y ciper. Mae'n fan cychwyn delfrydol i archwilio'r goedwig ar ein llwybr cerdded byr sydd wedi'u marcio, neu'r llwybr aml-ddefnyddiwr ar gyfer cerddwyr, beicwyr a marchogion.

Llwybrau cerdded

Tro'r Ciper
(½ milltir/1 km, hawdd)

Mae'r daith gerdded fer hon yn mynd heibio i goed enfawr, bwthyn yr hen giper a'r llyn prydferth.

Llwybr Darganfod Anifeiliaid
(½ milltir/1 km, hawdd)

Gall dditectifs natur godi taflen o'r peiriant yn y maes parcio a dilyn y cliwiau. Mae'r Llwybr Darganfod Anifeiliaid yn cychwyn ar yr un llwybr â Thaith Gerdded y Ceidwad.



Llwybr aml-ddefnyddiwr

Trot Bod Petryal
(2 filltir/3.3 km, hawdd/ffordd goedwig neu debyg)

Mae'r llwybr yn gwau drwy'r goedwig a gall cerddwyr, beicwyr a marchogion ei ddefnyddio.

Sut i gyrraedd yma

Mae Bod Petryal 8 milltir i'r de-orllewin o Ruthun. Cymerwch yr A494 o Ruthun i'r Bala. Trowch i fynd ar y B5105 tuag at Glawddnewydd. Oddi yma, parhewch tuag at Gerrigydrudion am 3 milltir, ewch heibio i faes parcio Boncyn Foel Bach a bydd maes parcio Bod Petryal ar y chwith.

Cyfeirnod grid OS SJ 036 512 / rhif map OS 264

Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



5 **Cronfa Ddŵr Alwen**

Cerddwch neu seiclwch o amgylch y gronfa ddŵr ucheldirol drawiadol hon



Y peth cyntaf y sylwch arno wrth gyrraedd maes parcio Alwen yw'r argae enfawr ar draws y gronfa ddŵr. Arferai'r ardal hon fod yn frith o ffermydd defaid tan i'r gronfa ddŵr a'r argae gael eu hadeiladu ar ddechrau'r 20^{fed} ganrif. Plannwyd coedwigoedd conwydd yn ddiweddarach er mwyn ailgyflenwi cyflenwadau pren yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yr argae yw'r man cychwyn ar gyfer llwybr i gerddwyr a beicwyr o amgylch y gronfa ddŵr.

Llwybr cerdded

Llwybr Alwen
(6¾ milltir/10.9 km, cymedrol)

Mae'r llwybr cylchol hwn yn mynd drwy goedwigoedd, rhostir ac ar hyd ymyl y dŵr ar lwybrau arwyneb a thraciau coedwigaeth. Mae ganddo olygfeydd, sy'n newid yn barhaus, dros y gronfa ddŵr ac i gyfeiriad mynyddoedd Eryri. Mae'r llwybr wedi'i farcio mewn cyfeiriad clocwedd o amgylch y llyn i gerddwyr.

Llwybr beicio mynydd

Llwybr Alwen
(10.9 km, gradd las)

Mae Llwybr Alwen wedi'i farcio mewn cyfeiriad gwrth-glocwedd ar gyfer beicwyr - dylech fod yn ymwybodol o gerddwyr eraill sy'n rhannu'r

llwybr hwn. Mae'n cysylltu ffyrdd coedwig â rhannau o lwybrau a adeiladwyd yn bwrpasol, yn aml ar drac sengl, i wau i mewn ac allan o'r goedwig o amgylch y gronfa ddŵr. Darllenwch y panel gwybodaeth graddio llwybrau ar gychwyn y llwybr neu ar dudalen 40.

Llyn Brenig

Dŵr Cymru sy'n rheoli'r ganolfan ymwelwyr yn Llyn Brenig. Mae ganddi gaffi, toiledau, siop bysgota, man chwarae, llwybrau cerdded a beicio, a llogi beiciau. Gall beicwyr a cherddwyr ddilyn ffordd gyswllt o Gronfa Ddŵr Alwen neu Lyn Brenig.

Sut i gyrraedd yma

Mae Cronfa Ddŵr Alwen 11 milltir i'r de-orllewin o Ddinbych. Cymerwch y B4501 o Ddinbych tuag at Gerrigydrudion. Ar ôl 10 milltir, ewch heibio i faes parcio canolfan ymwelwyr Dŵr Cymru ger Llyn Brenig a pharhewch am 1 filltir. Mae'r troad i Gronfa Alwen ar y dde ac mae'r maes parcio (talau ac arddangos, sy'n eiddo i Dŵr Cymru) ar ddiwedd trac cerrig.

Cyfeirnod grid OS SH 956 529 / rhif map OS 264

Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



© Croeso Cymru

6

Gwarchodfa Natur a Choedwig Genedlaethol Niwbwrch

Dyma dirwedd arfordirol sydd wedi'i siapia gan y gwynt a'r môr



Mae'r twyni a'r traeth yn Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn wedi'u lleoli ar ben deheuol Ynys Môn. Gyda'i gilydd, maent yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol sydd hefyd yn cynnwys morfeydd heli a fflatiau tywod arfordirol.

Mae'r warchodfa yn gartref i blanhigion ac anifeiliaid sydd wedi addasu i'r amgylchedd heriol ac ecolegol gyfoethog ar ymyl y môr, ac mae'r goedwig yn safle cadwraeth i wiwerod coch.

Y twyni tywod a'r aber

Mae gan Niwbwrch un o'r systemau twyni tywod mwyaf a gorau ym Mhrydain. Mae'r twyni wedi'u carpedu â blodau yn yr haf, ac mae planhigion sydd wedi'u haddasu'n arbennig yn ffynnu ar forfa heli. Mae aber afon Cefni yn warchodfa i fywyd gwyllt ac adar, yn enwedig rhydwyr, hwyaid a gwyddau sy'n mudo.

Ynys Llanddwyn

Mae ynys fechan Ynys Llanddwyn yn llawn bywyd adar a blodau gwylltion. Edrychwch am obenyddion lafa o losgfynddoedd hynafol y môr ac adfeilion yr eglwys sydd wedi'i chysegru i Santes Dwynwen, nawddsant cariadon Cymru. Gall yr ynys gael ei gwahanu o'r tir mawr gan ddŵr dwfn adeg llanw uchel - edrychwch ar amserau'r llanw cyn cychwyn.

Y goedwig

Mae Coedwig Niwbwrch yn gartref i un o famaliaid eiconig Prydain, sef y wiwer goch, a gafodd ei hailgyflwyno i'r gwyllt yn 2004. Mae'r gymysgedd o goed pinwydd a brodorol a dyfir yma yn rhoi bwyd a chysgod iddynt. Mae'r goedwig hefyd yn lle poblogaidd ar gyfer cerdded a beicio.



Llwybrau cerdded

Mae llwybrau cerdded sydd wedi'u marcio yn cychwyn o sawl maes parcio.

Llwybr Pos Anifeiliaid a Natur (1 filltir/1.5 km, hawdd, o faes parcio'r Traeth)

Cymerwch daflen o'r peiriant yn y maes parcio a chwilio am yr anifeiliaid.

Llwybr Saint, Tywod a Môr (4½ filltir/7.1 km, hawdd, o faes parcio'r Traeth)

Dilynwch y llwybr hwn drwy'r goedwig a'r twyni ac yna ymlaen i ynys Llanddwyn er mwyn cael cipolwg ar ddaear a hanes Niwbwrch. Gall yr ynys gael ei gwahanu o'r tir mawr adeg llanw uchel, felly gwiriwch amserau'r llanw cyn cychwyn.

Llwybr Treftadaeth y Tywysogion a Phinwydd (3½ filltir/5.3 km, cymedrol, o faes parcio Cwnhingar)

Mae'r gylchdaith hon yn cychwyn drwy'r goedwig a'r twyni ac yna'n mynd drwy dir fferm, gan fynd heibio i adfeilion llys canoloesol Llys Rhosyr.

Llwybr y Wiwer Goch (1½ milltir/2.4 km, hawdd, o faes parcio Llyn Parc Mawr)

Dysgwch am wiwerod coch ar y llwybr cyfeillgar-i-deuluoedd hwn drwy'r goedwig ac, os ydych yn lwcus, efallai y gwelwch chi un go iawn.

Llwybr Trem yr Aber (1½ filltir/2.9 km, hawdd, o faes parcio Pen Cob)

Cerddwch drwy'r goedwig ac wrth ymyl aber afon Cefni. Mae'n cynnwys golygfannau i wylio'r bywyd gwyllt.

Llwybr y Twyni (3½ milltir/5.6 km, cymedrol, o feysydd parcio Braint neu Lyn Rhos Ddu)

Mwynhewch y golygfeydd o Gwnhingar draw at y mynyddoedd a'r arddangosfa o flodau gwylltion yn yr haf. Mae yna guddfan adar ger maes parcio Llyn Rhos Ddu.



Llwybrau beicio mynydd

Mae'r ddau lwybr yn cychwyn o faes parcio'r Traeth. Darllenwch y panel gwybodaeth graddio llwybrau ar gychwyn y llwybr neu ar dudalen 40. Dylech fod yn ymwybodol o eraill sy'n defnyddio'r ffyrdd coedwig.

Her Natur Bikequest (7.8 km, gradd ffordd goedwig neu debyg)

Cymerwch daflen o'r peiriant yn y maes parcio. Yna, cychwynnwch er mwyn dod o hyd i atebion cwestiynau'r her gyfeillgar-i'r-teulu.

Llwybr Beicio Corsica (9.9 km, gradd ffordd goedwig neu debyg)

Mae'r llwybr cylchol hwn sydd wedi'i farcio yn eich arwain drwy rannau mwyaf heddychlon y goedwig.

Gweithgareddau eraill

Llwybr Ffitrwydd (1¼ milltir/2.7 km, hawdd, o feysydd parcio'r Traeth neu Gwnhingar)

Mae'r llwybr Ffitrwydd wedi'i gynllunio i wella eich iechyd a'ch ffitrwydd wrth fwynhau harddwch y goedwig. Ceir 11 gorsaf ymarfer corff ac mae dwy ohonynt yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. Mae gan bob un banel cyfarwyddiadau a mainc gorffwys gerllaw.

Llwybr Rhedeg y Gymanwlad (8½ filltir/13.6 km, hawdd, o faes parcio'r Traeth)

Yn 2011, daeth Pencampwriaeth Rhedeg Mynyddoedd a Phellter Eithaf y Gymanwlad i ogledd Cymru a chynhaliwyd y ras llwybr Pellter Eithaf 55 km yn Niwbwrch. Heddiw, gallwch redeg rhan o'r llwybr rasio drwy'r goedwig a'r twyni ac i Ynys Llanddwyn. Gall yr ynys gael ei gwahanu o'r tir mawr adeg llanw uchel, felly gwiriwch yr amserau llanw cyn cychwyn.

Marchogaeth

Mae dau lwybr marchogaeth sydd wedi'u marcio ac sy'n yn mynd drwy Goedwig Niwbwrch, yn cychwyn o faes parcio Pen Cob (ein hunig faes parcio sydd â lle i bedwar treilar ceffylau). Mae Llwybr y Postman yn 6¼ milltir (10.9 km) ac mae Llwybr y Coetir yn 7½ milltir (12.3 km). Gweler ein gwefan am sut i wneud cais am drwydded i farchogaeth ceffylau yma.

Cyfeiriannu

Profwch eich sgiliau darllen map drwy lywio rhwng y rheolyddion (pyst marcwyr pren) ar y tri chwrs cyfeiriannu parhaol yn y goedwig. Lawrlwythwch fapiau a chyfarwyddiadau o'n gwefan neu prynwch nhw o'r bwth toll ar y fynedfa i feysydd parcio'r Traeth, Airman a Chwnhingar.

Llwybr Arfordir Cymru

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn mynd drwy rannau o Goedwig Niwbwrch ac ar hyd y traeth - edrychwch am ei arwyddion cragen draig glas a melyn.

Cynllunio eich ymweliad

Dengys y map yn ein taflen am Niwbwrch leoliadau'r meysydd parcio a manylion yr holl lwybrau. Lawrlwythwch gopi o'n gwefan neu prynwch gopi yn ein tollfwrth ym mynedfeydd meysydd parcio Y Traeth, Airman a Chwnhingar.

Sut i gyrraedd yma

Mae Niwbwrch 13 milltir i'r de-orllewin o Fangor.

Cymerwch yr A55 o Fangor tuag at Gaergybi. Ewch dros Bont Britannia i Ynys Môn a chymryd yr A4080 i bentref Niwbwrch. Trowch i'r chwith, gan ddilyn yr arwyddion brown a gwyn ar gyfer Ynys Llanddwyn, a byddwch yn cyrraedd y bwth toll ar gyfer meysydd parcio'r Traeth, Airman a Chwnhingar. Gweler arwyddion lleol neu'r map ar ein gwefan ar gyfer lleoliad ein meysydd parcio eraill.

Cyfeirnod grid OS SH 405 634 (maes parcio'r Traeth) / rhif map OS 263

Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



Gwybodaeth hygyrchedd

Mae yna le parcio ar gyfer deiliaid bathodyn glas a thoileddau hygyrch ym maes parcio'r Traeth. Mae dwy o'r gorsafoedd ymarfer corff ar y Llwybr Ffitrwydd yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Cyfngiadau cŵn tymhorol

Mae croeso i'ch ci ar y llwybrau coedwig, ond mae cyfngiadau cŵn tymhorol mewn lle ar draeth y faner las (1 Mai - 30 Medi) ac Ynys Llanddwyn (1 Ebrill - 30 Medi), ac eithrio ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Gweler ein gwefan ac arwyddion ar y safle i gael rhagor o fanylion.

Amseroedd agor

Mae'r maes parcio a'r toiledau ym maes parcio'r Traeth ar agor o 9yb tan 4yp yn y gaef ac o 8yb tan 6yh yn yr haf. Mae maes parcio'r Traeth yn llenwi'n gyflym ar adegau prysur a gall traffig fod yn drwm iawn - gweler y map ar ein gwefan ar gyfer meysydd parcio eraill. Mae yna fan hufen iâ a fan arlwyio ym maes parcio'r Traeth ar benwythnosau rhwng misoedd Ebrill a Medi, ac yn ddyddiol yn ystod gwyliau haf yr ysgol.

Ardal Bangor



7 Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Bodeilio

Gwlypdir o bwys rhyngwladol sy'n llawn bywyd gwylt



Mae gan Gymru yr ail ehangder mwyaf o gorsydd yn y DU ar ôl Dwyrain Anglia. Mae Cors Bodeilio yn un o dair cors ar Ynys Môn sydd wedi cael eu dynodi'n Warchodfa Natur Genedlaethol.

Mae'n bwysig yn rhyngwladol oherwydd ei llaid unigryw (ardal gwlypdir). Mae dŵr llawn mwynau o'r calchfaen cyfagos yn draenio i'r gwlypdir, gan greu'r amodau perffaith ar gyfer lluo o blanhigion, anifeiliaid ac adar gwlypdir prin. Gallwch archwilio'r warchodfa ar ein taith gerdded sydd wedi'i marcio - o'r rhodfa, mae yna olygfeydd gwyh o'r warchodfa a'r nifer o flodau gwylt sy'n tyfu yma.

Llwybr cerdded

Llwybr Cors a Dolydd (1½ milltir/2.3 km, hawdd)

Dilynwch y llwybr ag arwyneb gwastad o'r maes parcio i ymuno â'r rhodfa ar y gors. Mae llwybr heb arwyneb yn parhau drwy'r warchodfa. Nodwch fod ceffylau yn pori yma a gall llwybrau fod yn fwdlyd ar ôl tywydd gwlyb.

Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol Corsydd Ynys Môn

Y ddwy gors arall ar Ynys Môn sydd wedi'u dynodi'n Warchodfeydd Natur Cenedlaethol yw **Cors Erddreiniog** (cyfeirnod grid Arolwg Ordnans SH 468 818) a **Chors Goch** (cyfeirnod grid Arolwg Ordnans SH 495 812, a reolir gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru).

Sut i gyrraedd yma

Mae Cors Bodeilio 11 milltir i'r gogledd-orllewin o Fangor.

Cymerwch yr A4087 o Fangor, parhewch i ymuno â'r A55 tuag at Gaergybi, gan fynd dros Bont Britannia ac i Ynys Môn. Gadewch yr A55 ar Gyffordd 8, gan fynd ar yr A5025. Trowch i'r dde ar ddiwedd y ffordd ymadael, gan ddilyn arwyddion tuag ar Benllech. Parhewch am 5 milltir hyd nes cyrraedd Pentraeth. Yn y pentref, trowch i'r chwith wrth y goleuadau traffig, gan ddilyn yr arwyddion tuag at Langefni. Cymerwch y chwith cyntaf tuag at yr ysgol a dilynwch y ffordd hon sy'n culhau am 1¼ milltir. Bydd y maes parcio ar y dde i chi.

Cyfeirnod grid OS SH 506 773 / rhif map OS 263

Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



8

Gwarchodfa Natur Genedlaethol Coedydd Aber

Coetir brodorol gyda rhaeadr ysblennydd

P

Mae'r Rhaeadr Fawr, sy'n cael ei hadnabod yn lleol hefyd fel 'Aber Falls', wedi bod yn boblogaidd gydag ymwelwyr ers Oes Fictoria. Mae'r lleithder ger y rhaeadr ac ar hyd yr afon yn gwneud amodau delfrydol ar gyfer mwsoglau, llysiau'r afu, rhedyn a chennau. Yn y gwanwyn, mae'r boblogaeth adar preswyl yn chwyddo gyda dyfodiad bridwyr mudol, ac mae gan y coetir garped o glychau'r gog. Mae'r ardaloedd glaswelltlog a'r meinciau ar hyd y llwybr yn ddelfrydol ar gyfer picnic.

Llwybr cerdded
Llwybr Rhaeadr Fawr
(2½ milltir/3.7 km yno ac yn ôl, hawdd)

Dilynwch yr arwyddion o'r maes parcio isaf neu uchaf i gychwyn y llwybr. Mae'r llwybr yn mynd ar hyd gwaelod y dyffryn i waelod y rhaeadr enfawr. Mae'r llwybr dychwelyd ar hyd yr un ffordd.

Gwybodaeth hygrychedd

Mae gan y ddau faes parcio le parcio ar gyfer deiliaid bathodynau glas. Mae gan y llwybr i'r rhaeadr (o'r giât ger y maes parcio isaf) ddringfa raddol a pharhaus o 100m/330tr. Mae'n 1.5m o led gydag arwyneb o gerrig wedi'u gwasgaru a rhywfaint o raean rhydd. Mae gan y gatiau gloeon RADAR i'w hagor yn llawn. Mae toiledau hygrych ar gael yn y maes parcio uchaf.

Sut i gyrraedd yma
Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Coedydd Aber 7 milltir i'r dwyrain o Fangor.
Trowch oddi ar yr A55 wrth Gyffordd 13 tuag at Abergwyngregyn. Dilynwch yr arwyddion brown a gwyn am Rhaeadr Fawr ar ffordd gul. Mae'r maes parcio isaf ar y ffordd hon ar ôl hanner milltir. Mae'r maes parcio uchaf dros y bont.
Cyfeirnod grid OS SH 664 718 / rhif map OS OL 17
Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



9

Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cwm Idwal

Golygfeydd dramatig o fynydd sy'n enwog am ei ffurfiannau creigiau a'i blanhigion prin

P

VC


Cwm Idwal, ym mhen gogleddol Parc Cenedlaethol Eryri, oedd y Warchodfa Natur Genedlaethol gyntaf a grëwyd yng Nghymru yn 1954. Yn fyd enwog am ei ffurfiannau creigiau a'i blanhigion prin a bregus, mae'n enghraifft ysblennydd o ddyffryn rhewlifol sydd wedi'i amgylchynu gan greigiau uchel a chrwn, a llyn ar ei waelod. Ymwelai Charles Darwin yn aml i weld y creigiau a'r planhigion yn ystod ei astudiaethau ar esblygiad, a defnyddiodd concwerwr Everest, Edmund Hillary, y Rhiwiau Caws fel maes hyfforddi.

Ymweld â Chwm Idwal
Mae Cwm Idwal yn cael ei reoli mewn partneriaeth gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae gan y ganolfan ymwelwyr arddangosfa am Gwm Idwal, yn ogystal â chiosg lluniaeth a thoiledau. Mae swyddfa Ceidwad Cwm Idwal yn y ganolfan ymwelwyr. Mae Cwm Idwal yn lleoliad poblogaidd ar gyfer mynydda, ac mae'r maes parcio'n llenwi'n gyflym ar adegau prysur.

Taith Cwm Idwal
Mae'r daith gerdded hon (2½ milltir/4.2 km) yn mynd â chi i amgylchedd mynyddig sydd fel arfer yn anhygyrch a thrwy Gwm Idwal, sef hollt siâp powlen sydd wedi'i lenwi â dyfroedd clir Llyn Idwal. Mae'r gylchdaith yn cychwyn i fyny grisiau serth ar ochr y ganolfan ymwelwyr ac yna'n dilyn llwybr cerrig amlwg. Nid yw'r daith wedi'i marcio, ond gallwch brynu map o swydddfa'r Ceidwad neu weld y panel gwybodaeth ar y cychwyn.

Sut i gyrraedd yma
Mae Cwm Idwal 10 milltir i'r gorllewin o Fetws-y-coed.
Cymerwch yr A5 o Fetws-y-coed tuag at Fethesda. Ar ôl 9 milltir, mae'r ffordd yn dilyn glan y llyn ac yn mynd heibio i Ganolfan Bwthyn Ogwen yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Yn syth ar ôl hyn, trowch i'r chwith wrth yr arwydd parcio brown a gwyn. Mae maes parcio'r ganolfan ymwelwyr (talau ac arddangos, a reolir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) ar y dde, gyferbyn â'r hostel ieuenctid.
Cyfeirnod grid OS SH 649 604 / rhif map OS OL 17
Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan

Mae'r parc coedwig anferth hwn yn amgylchynu pentref Betws-y-coed a gallwch archwilio'r dirwedd amrywiol a dysgu am ei hanes glofaol ar ein Llwybrau cerdded sydd wedi'u marcio. Mae yna hefyd lwybr beicio mynydd gradd goch a digon o fannau picnig sydd i'golygfeydd ffantastig.



Dewis o lwybrau cerdded coedwig sydd ymhell o fwrlwm twristiaid



Mae Parc Coedwig Gwydir yn amgylchynu Betws-y-coed, un o bentrefi harddaf Parc Cenedlaethol Eryri. Mae ein llwybrau cerdded sydd wedi'u marcio, yn cychwyn o'r pentref ac yn cynnwys llwybr beicio hawdd, dringfeydd serth i fyny brynau coediog sydd â golygfeydd pellgyrhaeddol, a theithiau cerdded o amgylch llynnoedd prydferth. Edrychwch ar ein paneli gwybodaeth yn maes parcio Pont y Pair neu prynwch ganllaw cerdded o Ganolfan Wrbodaeth Parc Cenedlaethol Eryri.

Llwybrau cerdded

Mae'r pedwar llwybr cerdded
cyntaf wedi'u marcio o faes
parcio Pont y Pair. Mae Taith
Llyn Elsi wedi'i farcio o'r tu ôl
i Eglwys y Santes Fair.

Llwybr Coed Tan Dinas
(¾ milltir/1.2 km, hawdd)
Rhodfa glan yr afon a llwybr
llydan drwy goed tal. Llwybr
pos anifeiliaid ac adnabod coed
- codwch daflen ar y cychwyn.

Taith Cyrau
(1½ milltir/2.5 km, anodd)
Dringfa serth drwy goed enfawr
sy'n arwain at olygfa odidog
dros Fetws-v-coed.



Sut i gyrraedd yma

Ceir arwyddion i Fetws-y-coed o'r A5 a'r A470.

Mae maes parcio Pont y Pair ym Metws-y-coed wrth gyffordd y B5106 a'r A5, ychydig dros bont gerrig gul. Rheolir y maes parcio a'r toiledau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Cyfeirnod grid OS SH 791 567 / rhif map OS OL 17

Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



11 Parc Coedwig Gwydir (Mwynglawdd Cyffty a Hafna)

Llwybrau cerdded drwy adfeilion
mwynglawdd plwm



Mae Mwynglawdd Cyffty a Hafna yn fannau heddychlon heddiw ond, wrth i chi ddilyn y llwybrau cerdded sydd wedi'u marcio drwy'r adfeilion, gallwch ddychmygu'r diwydiant a fodolai ar un adeg yn y cyn-weithfeydd plwm hyn. Dysgwch fwy am yr hanes glofaol o'r paneli dehongli ar hyd y ddau lwybr. Gellir cychwyn llwybr beicio 24.8 km gradd goch Gwydir Mawr yn Hafna (gweler tudalen 22 am fanylion).

Llwybrau cerdded

Llwybr Mwynglawdd Cyffty (¼ milltir/0.5 km, cymedrol)

Mae'r llwybr cerdded byr hwn yn gwau ei ffordd o amgylch adfeilion y mwynglawdd a cheir cyfres o risiau rhwng yr hen dai peiriannol, y pyllau olwyn a siafftiau'r pwll glo.

Llwybr Mwynwyr Hafna (2¼ milltir/3.6 km, cymedrol)

Dilynwyd yn ôl traed y glöwyr heibio i adfeilion sawl pwll

glo gwahanol, gan gynnwys toriadau dwfn, siafftiau a mynedfeydd twneli. Mae rhai grisiau serth ar hyd y llwybr.



Sut i gyrraedd yma

Mae Mwynglawdd Cyffty 2½ milltir ac Hafna 1½ milltir i'r de-orllewin o Lanrwst.

Cymerwch y B5106 o Lanrwst tuag at Fetws-y-coed. Ar ôl troi i'r chwith wrth yr arwydd brown a gwyn ar gyfer Castell Gwydir, trowch i'r dde yn syth ar is-ffordd. Ewch heibio i faes parcio'r Sawbench, parhewch am tua milltir a bydd maes parcio Hafna ar y dde i chi. Parhewch am filltir arall, heibio i faes parcio Llyn Sarnau, a bydd maes parcio Mwynglawdd Cyffty ar y chwith i chi.

Cyfeirnod grid OS SH 772 589 (Mwynglawdd Cyffty) / SH 781 600 (Hafna) / rhif map OS OL 17

Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



12 Parc Coedwig Gwydir (Cae'n y Coed a Thy'n Llwyn)

Safleoedd picnic hardd
a llwybr i raeadr enwog



Mae gan y safle picnic mawr, hawdd-ei-ganfod hwn ddigon o le i'r plant chwarae. Mae ganddo hefyd daith gerdded fer, ond serth, gyda golygfeydd o'r mynydd. Mae'r llwybr cerdded o Dy'n Llwyn yn mynd trwy goetir i olygfan sy'n edrych dros y rhaeadr fwyaf di-dor yng Nghymru. Ceir golygfeydd gwyb o'r byrddau picnic yn yr ardal laswelltog ger y maes parcio.

Llwybrau cerdded

Taith Gerdded Craig Forris (2 filltir/3.4 km, anodd, o Gae'n y Coed)

Mae'r ddringfa serth yn arwain at olygfan gyda mainc sy'n edrych draw at Foel Siabod a Mynydd y Carneddau.

Llwybr Rhaeadr Ewynnol (2¼ milltir/3.6 km, anodd, o Dy'n Llwyn)

Mae'r llwybr hwn yn disgyn drwy'r coetir i olygfan gyda mainc sy'n edrych dros y rhaeadr enwog hon. Mae rhai grisiau serth ar hyd y llwybr.

Sut i gyrraedd yma

Mae Cae'n y Coed 2 filltir i'r gorllewin o Fetws-y-coed.

Ewch ar yr A5 tuag at Gapel Curig ac mae'r maes parcio ar y chwith yn union ar ôl y brif fynyddfa i'r Rhaeadr Ewynnol.

Cyfeirnod grid OS SH 763 576 / rhif map OS OL 17

Mae Ty'n Llwyn 3½ milltir i'r gorllewin o Fetws-y-coed.

Ewch ar yr A5 tuag at Gapel Curig. Ewch heibio i faes parcio Gae'n y Coed a throwch i'r dde i'r is-ffordd gul yn union cyn y Tŷ Hyll. Mae'r maes parcio bach milltir i fyny'r ffordd hon, ar y dde.

Cyfeirnod grid OS SH 765 583 / rhif map OS OL 17

Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



13 Llynnoedd Parc Coedwig Gwydir

Llwybrau wedi'u marcio gyda golygfeydd godidog o amgylch rhai o llynnoedd golygfaol Gwydir



Llyn Crafnant



Llyn Geirionydd



Llyn Sarnau

Arferai mwyngloddio plwm a sinc ddominyddu'r ardal hon ar un adeg, a chrëwyd bron y cyfan o'r llynnoedd yng Nghoedwig Gwydir i wasanaethau'r pyllau glo.

Heddiw, gall ymwelwyr archwilio tirwedd heddychlon o lynnoedd, coedwigoedd a mynyddoedd ar ein llwybrau cerdded sydd wedi'u marcio.

Roedd **Llyn Crafnant** ar un adeg yn cyflenwi dŵr i dref Llanrwst gerllaw. Mae'n gorwedd mewn dyffryn hardd lle mae ymyl y goedwig yn cwrdd â llethrau isaf mynyddoedd y Carneddau. Mae'r olygfa o ben y llyn dros y dŵr i'r mynyddoedd yn un o'r rhai gorau yng ngogledd Cymru. Mae tri llwybr sydd wedi'u marcio yn cychwyn o'r maes parcio. Mae un ohonynt yn llwybr hygyrch, a gallwch hefyd gerdded i Llyn Geirionydd gerllaw. .

Llyn Geirionydd, yn ôl pob sôn, oedd cartref y bardd o'r 6ed ganrif, Taliesin, a saif cofeb iddo ar y lan ogleddol. Mae'n llecyn picnic poblogaidd a cheir taith gerdded drwy'r goedwig i Llyn Crafnant.

Ystyr yr enw **Llyn Sarnau** yw "llyn yr hen draciau". Mae'r llyn wrth ymyl y maes parcio ac mae'n weddol fas. Mae'n aml yn sychu yn yr haf, ond mae'n gartref gwerthfawr i fywyd gwylt. Mae'r llwybr cerdded yn mynd o amgylch sawl llyn llai yn y goedwig.



Llwybrau cerdded

Crwydro Afon Crafnant
(½ milltir/0.6 km, hygyrch, o faes parcio Llyn Crafnant)
Mae Crwydro Afon Crafnant yn llwybr darganfod natur ar lan afon drwy goed conwydd tal.

Cylchdaith Llyn Crafnant
(3¼ milltir/5 km, hawdd, o faes parcio Llyn Crafnant)
Mae gan y llwybr hwn o amgylch y llyn olygfeydd ar draws y dŵr i'r clogwyni ym mhen uchaf y dyffryn.

Golygfa Crafnant
(3 milltir/4.8 km, cymedrol, o faes parcio Llyn Crafnant)
Dringfa hir, sefydlog i fainc bren lle ceir golygfeydd panoramig o'r dyffryn a mynyddoedd y Carneddau.



Llwybr Geirionydd i Grafnant
5 milltir/8 km, cymedrol, o feysydd parcio Llyn Crafnant a Llyn Geirionydd)
Mae'r cylchdaith hon yn mynd drwy'r goedwig ac yn cysylltu'r ddau llyn.

Llwybr y Llynnoedd
(2¾ milltir/4.3 km, cymedrol, o faes parcio Llyn Sarnau)
Mae'r llwybr hwn drwy goetir conwydd yn mynd heibio i nifer o lynnoedd a rhai adeilion mwyngloddiau.

Gwybodaeth hygyrchedd

Mae Crwydro Afon Crafnant yn llwybr hygyrch gyda meinciau ar hyd y llwybr. Mae ganddo raddiant hawdd ac arwyneb gwyach.

Mae lle parcio ar gyfer deiliaid bathodynnew glas a meinciau picnic hygyrch ym mhob un o'r tri maes parcio. Mae yna doiledau hygyrch ar gael ym maes parcio Llyn Crafnant.

Amseroedd agor

Mae'r toiledau ar agor o 9yb tan 7yh drwy'r flwyddyn. Maent yn cael eu cloi dros nos.

Sut i gyrraedd yma

Mae Llyn Crafnant 4 milltir i'r gorllewin o Lanrwst.
Dilynwch y B5106 o Lanrwst i Drefriw. Yn y pentref, cymerwch y ffordd fach ar y chwith gyferbyn â'r dafarn. Dilynwch y ffordd gul hon am 2 filltir hyd nes i chi gyrraedd y maes parcio.

Mae Llyn Geirionydd 4 milltir i'r gorllewin o Lanrwst.
Cymerwch y B5106 o Lanrwst tuag at Fetws-y-coed. Ar ôl troi i'r chwith wrth yr arwydd brown a gwyn ar gyfer Castell Gwydir, trowch i'r dde yn syth ar is-ffordd. Ewch heibio i nifer o feysydd parcio Cyfoeth Naturiol Cymru a throwch i'r dde wrth yr arwyddbost ar gyfer Llyn Geirionydd. Dilynwch y ffordd hon i'r maes parcio.

Mae Llyn Sarnau 2 filltir i'r gorllewin o Lanrwst.
Cymerwch y B5106 o Lanrwst tuag at Fetws-y-coed. Ar ôl troi i'r chwith wrth yr arwydd brown a gwyn ar gyfer Castell Gwydir, trowch i'r dde yn syth ar is-ffordd. Ewch heibio i'r meysydd parcio ar gyfer Maenc Lifio ac Hafna a bydd maes parcio Llyn Sarnau ar y chwith.

Cyfeirnodau grid OS SH 756 618 (Llyn Crafnant) SH 763 604 (Llyn Geirionydd) SH 778 592 (Llyn Sarnau) / rhif map OS OL 17
Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



14 **Parc Coedwig Gwydir (Mainc Lifio)**

Taith gerdded hanesyddol gyda golygfeydd o'r dyffryn a dau lwybr beicio mynydd



Mainc Lifio yw'r man cychwyn ar gyfer llwybr cerdded byr a dau lwybr beicio mynydd o fri. Mae'r llwybr cerdded yn cynnwys nodweddion hanesyddol ac mae golygfeydd dros Ddyffryn Conwy.

Llwybr cerdded

Llwybr Arglwyddes Mair (1¼ milltir/2.1 km, cymedrol)
Mae gan y daith gerdded hon gerfluniau a phaneli gwybodaeth.

Llwybrau beicio mynydd

Darllenwch y panel gwybodaeth ar raddfeydd y llwybrau ar ddechrau'r llwybr neu ar dudalen 40 i ddewis llwybr sy'n addas i chi. Dysgwch fwy am feicio mynydd yng Nghymru ar www.mbwales.com.

Gwydir Bach (9.1 km, gradd goch, o faes parcio Mainc Lifio)

Mae'r llwybr hwn yn dilyn rhan o lwybr Gwydir Mawr. Mae ganddo drac sengl a dwy ddringfa fawr sy'n arwain at lethrau gorau Gwydir Mawr.

Gwydir Mawr (24.8 km, gradd goch, o feysydd parcio Mainc Lifio neu Hafna)

Mae'r rhan fwyaf o'r dringfeydd ar ffyrdd coedwig a thraciau gan roi amser i fwynhau'r golygfeydd. Mae'r llethrau ar drac sengl yn amrywio o fod yn dynn iawn, technegol a chreigiog i agored a llyfn.

Llwybrau cyfagos

Mae grŵp cymunedol yn rhedeg dau lwybr beicio mynydd ger pentref Penmachno mewn coetir diarffordd sy'n cael ei reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae **Llwybrau Penmachno** wedi'u rhannu'n ddwy ddolen y gellir eu beicio'n unigol neu fel un llwybr 30 km (cyfeirnod grid OS y maes parcio SH 786 498).

Sut i gyrraedd yma

Mae Mainc Lifio 1 filltir i'r gorllewin o Lanrwst.

Cymerwch y B5106 o Lanrwst tuag at Fetws-y-coed. Ar ôl troi i'r chwith wrth yr arwydd brown a gwyn ar gyfer Castell Gwydir, trowch i'r dde yn syth i ddilyn isffordd. Cymerwch y ffordd goedwig gyntaf ar y chwith gyda'r arwydd Sawbench/ Mainc Lifio.

Cyfeirnod grid OS SH 790 609 / rhif map OS OL 17

Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



15 **Gwarchodfa Natur Genedlaethol Yr Wyddfa**

Mae mynydd uchaf Cymru yn gartref i fywyd gwylt a phlanhigion prin



Gydag uchder o 1085 m/3560 tr, Yr Wyddfa yw'r copa uchaf yng nghadwyn Eryri, a'r mynydd enwocaf yng Nghymru. Eryri yw'r unig fan yn y DU lle ceir lili'r Wyddfa, sy'n tyfu ar glogwyni a chreigiau, ac mae llawer o'r Wyddfa yn Warchodfa Natur Genedlaethol. Rheolir y warchodfa drwy bartneriaeth rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a thirfeddianwyr lleol.

Ymweld â'r Warchodfa Natur Genedlaethol

Mae llawer o wahanol lwybrau i gopa'r Wyddfa. Mae dau lwybr o faes parcio Pen y Pass (**Llwybr Pyg a Llwybr y Mwynwyr**) yn cyrraedd y Warchodfa Natur Genedlaethol yn fuan ar ôl iddynt ddechrau. Mae'r holl lwybrau'n anodd, yn greigiog ac yn serth a dylech wisgo dillad ac esgidiau addas. Edrychwch ar y paneli gwybodaeth ar y safle a rhagolygon y tywydd cyn cychwyn.

Cynllunio eich ymweliad

Mae'r prif feysydd parcio sydd â mynediad i'r Wyddfa yn eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol

Eryri ac mae ganddynt dâl parcio. Mae gan faes parcio Pen y Pass ganolfan ymwelwyr, caffi a tholedau. Yn ystod oriau brig, mae'r meysydd parcio yn aml yn llenwi'n gynnar yn y dydd felly argymhellir ymweld yn ystod yr wythnos neu y tu allan i wyliau'r ysgol.

Mae bws Sherpa'r Wyddfa yn teithio o gwmpas godre'r Wyddfa, gan greu cyswllt rhwng y chwe phrif lwybr i fyny'r mynydd a phrif feysydd parcio, pentrefi a chyrchfannau twristiaeth yr ardal.

Dysgwch fwy ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri neu ganolfan ymwelwyr Betws-y-coed.

Sut i gyrraedd yma

Mae maes parcio Pen y Pass 5½ milltir i'r de o Lanberis.

Cymerwch yr A4086 o Lanberis tuag at Gapel Curig ac mae maes parcio Pen y Pass ar y dde, gyferbyn â hostel ieuencid Pen y Pass. Rheolir y maes parcio gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Cyfeirnod grid OS SH 647 556 (maes parcio Pen y Pass) / rhif map OS OL 17

Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



16 **Coedwig Beddgelert**
Coedwig dawel ym mherfeddion
Parc Cenedlaethol Eryri



Mae'r goedwig anferth hon mewn rhan dawel ond hawdd ei lleoli o Barc Cenedlaethol Eryri, ac mae ganddi lwybrau cerdded a beicio wedi'u harwyddo gyda golygfeydd gwych. Mae'r llwybrau'n mynd heibio i'r Llyn Llywelyn diarffordd, llecyn delfrydol i gael picnic ar un o'r meinciau neu ar y glannau glaswelltog. Mae'r llwybrau beicio mynydd yn dilyn ffordd coedwig ac maent yn addas i'r teulu cyfan. Gwrandewch am drenau Hen Reilffordd Ucheldir Cymru sy'n rhedeg drwy'r goedwig.

Llwybr cerdded
Llwybr Llyn Llywelyn
(2¾ milltir/4.4 km, cymedrol)
Mae'r llwybr yn cychwyn drwy'r coetir ac yn mynd ar hyd lan y llyn. Mae golygfeydd ar draws y goedwig i'r Wyddfa o'r llwybr cylchol hwn.

Llwybrau beicio mynydd
Darllenwch y panel gwybodaeth ar raddfeydd y llwybr ar ddechrau'r llwybr neu ar dudalen 40 i ddewis llwybr sy'n addas i chi.

Llwybr Bedwen
(6 km, ffordd goedwig neu debyg)
Mae'r llwybr cylchol hwn yn mynd heibio i'r llyn sy'n lle gwych i fwynhau'r olygfa.

Llwybr Derwen
(10.1 km, ffordd goedwig neu debyg)
Mae'r llwybr hwn yn mynd o amgylch pen gogleddol y goedwig gyda dringfeydd araf a graddol a golygfeydd dros Barc Cenedlaethol Eryri. Mae'n cyrraedd yn ôl i'r maes parcio heibio'r llyn.

Llwybr arall
Mae **Lôn Gwyrfa** (llwybr 4½ milltir rhwng Beddgelert a Rhyd Ddu) yn mynd drwy'r goedwig. Rheolir y llwybr gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a gall cerddwyr, beicwyr a marchogwyr ceffylau ei ddefnyddio.

Sut i gyrraedd yma
Mae Coedwig Beddgelert ddwy filltir i'r gogledd o bentref Beddgelert.
Cymerwch yr A4085 o Feddgelert i gyfeiriad Caernarfon. Ar ôl 1 filltir, pasiwch fynedfa Forest Holidays ac yna trowch i'r chwith at drac. Dilynwch y trac hwn am ½ milltir i faes parcio Coedwig Beddgelert.
Cyfeirnod grid OS SH 574 503 / rhif map OS OL 17
Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



17 **Gwarchodfa Natur**
Genedlaethol Coedydd
Maentwrog (Coed Llyn Mair)

Coetir hynafol gyda fflora a ffawna prin



Coetir derw Coedydd Maentwrog yw'r hyn sy'n weddill o goedwig law Geltaidd enfawr a ymestynai ar hyd ochr orllewinol Prydain ac Iwerddon ar un adeg. Mae'r glawiad uchel a'r chwistrell o'i nentydd byrlymus serth yn cynnal amgylchedd llaith sydd bron yn barhaol o dan y canopi coed, gan gefnogi goedwig law dymherus brin. Mae llawer o'r mwsoglau, llysiau'r afu a'r cennau ar foncyffion y coed a'r creigiau'n goroesi mewn ardaloedd llaith yn unig - mae rhai mor brin nes eu bod o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae'r coetir hefyd yn lle gwych i bryfed sy'n darparu bwyd i'r ystlumod sy'n clwydo ac yn bridio yma, gan gynnwys yr ystlum pedol lleiaf prin.

Ymweld â Choedydd Maentwrog
Dilynwch y llwybr sy'n dringo o faes parcio Coed Llyn Mair drwy'r coetir i faes picnic bach a mynedfa gorsaf Tan y Bwlch (½ milltir/0.7 km yno ac yn ôl). Mae'r orsaf hon ar Reilffordd Ffestiniog ac mae ganddi gaffi gyda tholedau. Mae opsiwn i ddychgwelyd i'r maes parcio ar llwybr serthach. Rheolir y llwybrau cerdded a beicio gyferbyn gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol gerllaw
Mae pum coetir derw arall gerllaw a ddynodwyd yn Warchodfeydd Natur Cenedlaethol. Mae llystyfiant trwchus a mynedfeydd serth yn golygu nad yw'r rhan fwyaf ohonynt yn addas i ymwelwyr. Gellir ymweld â dau gyda gofal - **Ceunant Cynfal** (ychydig oddi ar yr A470, cyfeirnod grid OS, SH 703 418); a **Cheunant Llennyrch** (ar ffordd gul, fach gyda gathiau oddi ar yr A496, cyfeirnod grid OS SH 660 393).

Sut i gyrraedd yma
Mae Coed Llyn Mair 7 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Borthmadog. Cymerwch yr A487 o Borthmadog i Faentwrog. Trowch i'r chwith i ddilyn y B4410 wrth dafarn yr Oakeley Arms ac, ar ôl tua 500 m, mae'r maes parcio ar y dde.
Cyfeirnod grid OS SH 652 413 / rhif map OS OL 18
Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



18 **Parc Coed y Brenin
(Canolfan Ymwelwyr)**

**Canolfan beicio mynydd enwog
ym Mharc Cenedlaethol Eryri gyda
llwybrau cerdded a rhedeg**



Daeth Coed y Brenin yn enwog yn y 1990au fel y ganolfan beicio mynydd bwrpasol gyntaf ym Mhrydain ac mae beicwyr mynydd yn dal i gael eu denu gan yr ystod o lwybrau rhagorol sydd yma. Gall ymwelwyr eraill fwynhau gweithgareddau fel cerdded, rhedeg llwybrau, cyfeiriannu a geogelcio.

Mae digonedd ar gyfer plant hefyd, gyda meysydd chwarae, llwybr pos anifeiliaid a digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.

Mae gan y ganolfan ymwelwyr gaffi a siop anrhegion. Mae hefyd siop feiciau, cawodydd a lle i olchi beiciau.

Yn ogystal â'r llwybrau niferus sy'n cychwyn o'r ganolfan ymwelwyr, ceir llwybrau cerdded wedi'u harwyddo o'n meysydd parcio eraill ym Mharc Coedwig Coed y Brenin - gweler y tudalennau canlynol am fanylion.



**Amseroedd agor y
ganolfan ymwelwyr
a'r caffï**

**9am - 5pm (haf)
9.30am - 4.30pm (gaeaf; wedi
cau Ddydd Nadolig, Gŵyl San
Steffan a Dydd Calan)**

Mae'r ddesg wybodaeth a'r siop yn agor 30 munud ar ôl y ganolfan ymwelwyr, ac yn cau 30 munud cyn y ganolfan ymwelwyr.

Cysylltu â ni

01341 440747
coedybrenin@
cyfoethnaturaolcymru.gov.uk

Llwybrau cerdded

Gweler tudalen 29 am fanylion.

Llwybrau beicio mynydd

Gweler tudalen 30 am fanylion.

Llwybrau rhedeg

Mae'r llwybrau rhedeg wedi cael eu cynllunio ar gyfer rhedwyr llwybrau newydd a rhai mwy profiadol. Maent yn dechrau o'r ganolfan ymwelwyr ac yn cynnwys cymysgedd o ffyrdd coedwig, hawliau tramwy cyhoeddus garw a rhannau bach o ffordd darmac. Mae yna esgyniadau a llethrau serth ynghyd â golygfeydd panoramig.

Llwybr Prawf Esgid

(1 filltir/1.8 km, cymedrol)

Sarn Helen - Llwybr Byr

(3 milltir/5 km, cymedrol)

Sarn Helen - Llwybr Hir

(5¼ milltir/8.3 km, cymedrol)

Goldrush

(8½ milltir/13.5 km, anodd)

Hanner Marathon

(14 milltir/22.5 km, anodd)

Mae'r manylion llawn ar ein gwefan ac ar y paneli gwybodaeth ar ddechrau'r llwybrau.



Geogelcio

Mae dau llwybr geogelcio ar gyfer cerddwyr ym Mharc Coedwig Coed y Brenin. Lawrlwythwch y cyfesurynnau i'ch dyfais o www.geocaching.com neu llogwch GPS o'r ganolfan ymwelwyr gyda'r cyfesurynnau eisioes wedi'u llwytho.

Cyfeiriannu

Mae'r pedwar cwrs cyfeiriannu parhaol yn cychwyn yn y ganolfan ymwelwyr ac yn cynnwys dau gwrs haws i ddechreuwyd a dau gwrs anoddach i ddarllenwyr mapiau hyderus. Lawrlwythwch y mapiau o'n gwefan neu prynwch fap o'r ganolfan ymwelwyr.

Cyfleusterau plant

Mae meysydd chwarae'r plant wedi eu dylunio i ddarparu ar gyfer gwahanol oedranau. Mae gan y man chwarae hygyrch arwyneb o ddefnydd rwyber llyfn. Mae gan yr ardal chwarae rhydd wal ddringo bren, cerrig camu a nant. Mae'r llwybr pos anifeiliaid yn dilyn llwybr hygyrch sy'n addas ar gyfer cadeiriau gwthio.

Gwybodaeth hygyrchedd

Mae ein llwybrau hygyrch wedi eu hadeiladu i safonau *Countryside for All*. Mae ganddynt raddiant hawdd (10% / 1 mewn 10 ar y mwyaf) ac maent yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Ceir un llwybr hygyrch o'r ganolfan ymwelwyr a thri llwybr hygyrch o feysydd parcio eraill yn y parc coedwig. Mae dau o'r llwybrau cerdded o'r ganolfan ymwelwyr yn addas ar gyfer sgwteri symudedd oddi ar y ffordd. Mae lleoedd parcio ar gyfer deiliaid bathodynau glas yn y ganolfan ymwelwyr, Ty'n y Groes, Pont Llam yr Ewig a Gardd y Goedwig. Mae'r toiledau yn y ganolfan ymwelwyr ac yn Nhy'n y Groes yn hygyrch.

Cerdded ym Mharc Coedwig Coed y Brenin

Mae llwybrau cerdded wedi'u harwyddo yn cychwyn mewn sawl maes parcio ym Mharc Coedwig Coed y Brenin. Mae gan bob maes parcio safle picnic (ac eithrio Pont Cae'n y Coed a Thyddyn Gwladys). Mae toiledau yn Nhy'n y Groes (yn agored 7am-7pm) a'r ganolfan ymwelwyr. Gweler ein gwefan a'r paneli gwybodaeth ar y safle am fanylion llawn am y llwybrau cerdded. Gallwch brynu arweinyfr cerdded yn y ganolfan ymwelwyr.



Sut i gyrraedd yma
Mae Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin 8 milltir i'r gogledd o Ddolgellau.
Dilynwch yr arwyddion brown a gwyn o'r A470.
Cod post ar gyfer sat nav LL40 2HZ (dilynwch yr arwyddion a pheidiwch â chymryd y ffordd Dim Ffordd Trwodd).
Codir tâl arnoch am faint o amser y byddwch yn parcio; talwch y tâl parcio pan fyddwch yn barod i adael.
Cyfeirnod grid OS SH 723 268 / rhif map OS OL 18
Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan

Llwybrau cerdded

Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin

Llwybr Afon Eden
(1 filltir/1.8 km yno ac yn ôl, hygyrch)

Llwybr byr i'r afon ac yn ôl ar hyd yr un llwybr gyda meinciau hygyrch.

Llwybr Glan Afon Eden
(gyda Llwybr Pos Anifeiliaid)
(1 filltir/1.4 km, hawdd)

Tro bach ysgafn i lawr i'r safle picnic ar lan yr afon. Codwch daflen o'r ganolfan ymwelwyr i weld pa anifeiliaid y gallwch chi eu darganfod.

Llwybr Cefndeuddwr
(¾ milltir/1.3 km, hawdd)

Taith gerdded fer at olygfan gyda bwrdd picnic.

Llwybr Pistyll Gain
(4 milltir/6.6 km, anodd)

Llwybr cylchol sy'n dringo dros gefnen ac i lawr at hen waith aur a dwy raeadr.

Pont Cae'n y Coed

Llwybr Llosgfynydd
(6¼ milltir/10.9 km, anodd)

Taith gerdded hir heibio sawl man diddorol gyda golygfeydd godidog o'r mynyddoedd.

Tyddyn Gwladys

Llwybr Rhaeadrau a Mwyngloddiau Aur
(2¼ milltir/3.6 km, cymedrol)

Llwybr coedwig ar lan yr afon mewn dyffryn serth at ddwy raeadr.

Ty'n y Groes

Llwybr Marchogion y Brenin
(½ milltir/0.8 km, hygyrch)

Llwybr byr ar lan yr afon at y Brenin, un o'r coed mwyaf ym mharc y goedwig.



Llwybr Pencampwr y Brenin
(½ milltir/0.9 km, hawdd)

Llwybr cylchol ar hyd yr afon a ffordd darmac - edrychwch am y Pencampwr, un o'r coed talaf ym mharc y goedwig.

Llwybr Mynydd Penrhos
(3¼ milltir/5.3 km, anodd)

Blas ar gerdded mynyddoedd gyda golygfeydd dros Eryri o'r fainc yn yr olygfan.

Glasdir

Llwybr Copr Glasdir
(1¼ milltir/1.9 km, cymedrol)

Taith gerdded fer ond serth (gyda rhai grisiau) o gwmpas hen waith copr.

Pont Llam yr Ewig

Llwybr Hygyrch Glasdir
(½ milltir/0.8 km, hygyrch)

Llwybr gwastad o'r maes parcio ar gyfer deiliaid bathodynau glas at olygfan sy'n edrych dros hen waith copr.

Gardd y Goedwig

Llwybr Darganfod Gardd y Goedwig
(¼ milltir/0.3 km, hygyrch)

Llwybr byr o'r maes parcio ar gyfer deiliaid bathodynau glas drwy ardd y goedwig at olygfan.

Pandy

Llwybr Darganfod Gardd y Goedwig
(½ milltir/0.6 km, hawdd)

Gallwch weld coed o bob cwr o'r byd a dysgu ffeithiau diddorol amdany'n nhw.

Beicio mynydd ym Mharc Coedwig Coed y Brenin

Coed y Brenin oedd y ganolfan beicio mynydd bwrpasol gyntaf yn y DU ac mae'n dal i fod yn un o'r goreuon. Mae wyth llwybr beicio mynydd yn cynnig rhywbeth ar gyfer dechreuwr a beicwyr profiadol, ac mae un yn addas ar gyfer beicwyr anabl gan ddefnyddio beic wedi'i addasu. Mae yma hefyd ardal sgiliau a siop feiciau gwasanaeth llawn a chanolfan rhentu beiciau.

Mae'r llwybrau wedi'u harwyddo o faes parcio'r ganolfan ymwelwyr ac maent wedi'u graddio yn ôl anhawster. Gweler yr wybodaeth ar dudalen 40 i ddewis llwybr sy'n addas i chi.

Gweler ein gwefan a'r paneli gwybodaeth ar y safle i gael manylion llawn am y llwybrau hyn. Gallwch brynu arweinlyfr ar gyfer y llwybr yn y ganolfan ymwelwyr. Ewch i www.mbwales.com i gael gwybod mwy am feicio mynydd yng Nghymru.

Yr Afon (10.8 km, ffordd goedwig neu debyg)

Llwybr lefel isel ar ffyrdd coedwig heibio adfeilion y gwaith aur ac ar hyd dyffryn yr afon at y rhaeadrau.

MinorTaur (3 km/5 km/9 km/12 km, gradd las)

Cyflwyniad gwych i feicio mynydd gyda nodweddion difyr fel grisiau cerrig, pennau bwrdd a llwybrau llifogydd dwfn. Mae'r pedair dolen yn mynd yn gynyddol hirach ac yn fwy heriol. Addas ar gyfer beicwyr anabl gan ddefnyddio beic mynydd wedi'i addasu.

Cyflym Coch (12.6 km, gradd goch)

Delfrydol ar gyfer marchogion sydd wedi meistrolu'r MinorTaur. Dringfeydd cymharol fyr a rhai o'n rhannau gorau i wibio.

Temptiwr (9 km, gradd goch)

Llwybr byr ond technegol gyda blas o'r hyn sydd i'w ddisgwyl ar ein llwybrau eraill.



Dragon's Back (30.1 km, gradd goch)
Clasur o lwybr traws gwlad gyda dringfeydd heriol, trac sengl tynn a disgynfeydd hir a chyflwm.

Tarw Du (20.1 km, gradd ddu)
Mae llwybr beicio mynydd pwrpasol cyntaf y DU yn glasurol o brawf ar sgiliau a ffitrwydd.

MBR (17.7 km, gradd ddu)
Cymysgedd gwych o ddringfeydd a llethrau creigiog gyda trac sengl cyflwm, llyfn a nodweddion newydd.

Beast (35.1 km, gradd ddu)
Cerrig llamu, llwybrau llifogydd, pennau bwrdd a chluniau ar y llwybr heriol hwn y mae pawb yn dyheu am gael rhoi cynnig arno!

Ardal Sgiliau Y Ffowndri a'r Parc Beicio

Gall yr ardal hyfforddi hon gael ei defnyddio gan feicwyr newydd, ymwelwyr tro cyntaf a beicwyr profiadol i gynhesu neu ddatblygu technegau. Mae gan y pedwar parth enghreifftiau o nodweddion llwybrau.

Siop feiciau
Mae Beics Brenin yn rhentu beiciau sy'n addas i'r llwybrau ac yn trefnu cyrsiau a digwyddiadau. Mae beiciau, dillad ac ategolion ar werth, ac mae gweithdy sy'n llawn cyfarpar. Gweler www.beicsbrenin.co.uk neu ffoniwch 01341 440728.



Ardal Dolgellau



19 Gwarchodfa Natur Genedlaethol Morfa Dyffryn
Twyni tywod a glan môr mewn tirwedd arfordirol hardd



Gyda'i ardaloedd mawr o dywod sy'n cael ei siapio gan y gwynt o hyd, mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Morfa Dyffryn yn un o'r systemau twyni pwysicaf yng Nghymru. Mae'n rhoi cartref i blanhigion ac anifeiliaid prin ac arbenigol iawn. Mae glaswelltiroedd y twyni sychach yn doreithiog o flodau gwyllt yn y gwanwyn a'r haf a ffyngau twyni yn yr hydref. Gyda'i gilydd, mae Morfa Dyffryn a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Morfa Harlech i'r de yn ffurfio ardal o dwyni tywod sydd bron yn ddi-dor.

Ymweld â Morfa Dyffryn Llwybr Arfordir Cymru

Nid oes llwybrau cerdded wedi'u harwyddo ond gallwch ddilyn y llwybr pren 200 metr o hyd o'r maes parcio i olygfau gyda mainc bicnic a mynediad i'r traeth. Gallwch hefyd gerdded drwy'r twyni i'r traeth. Mae rhan o'r warchodfa yn draeth noethlymunwyr dynodedig a cheir arwyddion sy'n nodi'r ardal hon. Mae'r toiledau yn y maes parcio (sy'n eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) yn agored o fis Ebrill tan fis Hydref.

Mae Llwybr Arfordir Cymru yn mynd ar hyd y traeth ym Morfa Dyffryn.

Cyfngiadau tymhorol ar gŵn

Mae'n rhaid cadw cŵn ar dennyn o fis Mawrth tan fis Gorffennaf er mwyn diogelu cwtiaid torchog sy'n nythu ar y traeth ac adar eraill sy'n nythu yn y twyni a'r morfa heli.

Gwybodaeth hygyrchedd

Mae'r llwybr pren yn wastad ac yn llydan ac yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae toiled hygyrch yn y maes parcio.

Sut i gyrraedd yma

Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Morfa Dyffryn 5 milltir i'r gogledd o Abermaw. Cymerwch yr A496 o Abermaw i Harlech. Ar ôl pentref Tal y Bont, throwch i'r chwith wrth yr arwydd brown a gwyn at Stad Glan Môr Dyffryn a thraeth Benar. Mae maes parcio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar ddiwedd y lôn gul hon ac mae tâl parcio.

Cyfeirnod grid OS SH 572 227 / rhif map OS OL 18
Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



© Croeso Cymru

20

Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cadair Idris

Un o'r mannau harddaf a mwyaf dramatig yng Nghymru

P£

VC

O ran mawredd a harddwch, ychydig iawn o leoliadau sydd crystal â Chadair Idris, cadwyn ysblennydd o gopaon yn ne Parc Cenedlaethol Eryri.

Penygadair yw'r copa uchaf ac un o fynyddoedd uchaf Cymru. Mae'r golygfeydd oddi yma yn edrych dros y rhan fwyaf o Gymru o Benrhyn Llŷn i Fannau Brycheiniog.

Gwarchodfa Natur Genedlaethol

Ffurfiwyd copaon creigiog Cadair Idris trwy brosesau folcanig ac yna fe'u siapiwyd dros sawl Oes lla gan rewlifoedd wrth iddynt ddadmer a malu'r creigiau. Mae'r ddaearog ryfeddol yn cynnal cyfoeth o fywyd gwyllt a phlanhigion arbennig, ac mae rhan helaeth o'r mynydd wedi'i dynodi'n Warchodfa Natur Genedlaethol. Mae mwsoglau, rhedynnau a chennau yn ffynnu yn y coetir derw a'r ceunant llaith a adwaenir fel y Goedwig Law Geltaidd.

32

Llwybrau cerdded

Llyn Dôl Idris
(½ milltir/0.6 km, hygyrch)
Mae'r llwybr cylchol hwn yn cychwyn o'r maes parcio ac yn mynd o amgylch y llyn yn y parcdir. Ger y bont droed, mae grisiau pysgod sy'n galluogi eogiaid i gyrraedd y nentydd.

Cylchdaith y Ddôl
(½ milltir/0.9 km, hygyrch)
Mae'r llwybr cylchol hwn ychydig yn hirach ac yn mynd drwy'r parcdir i'r ganolfan ymwelwyr. Edrychwch am yr adfail lle cafodd dŵr bwrdd a chwrw sinsir Idris eu cynhyrchu gyntaf.

Cerdded i'r copa
Llwybr Minffordd yw'r llwybr byrraf i fyny Cadair Idris ond hefyd y serthaf (6 milltir/10 km i'r copa ac yn ôl). Nid yw'r ddringfa anodd hon wedi'i harwyddo a thua'r man cychwyn mae cyfres hir o risiau creigiog serth iawn yn fuan wedi'r ganolfan ymwelwyr. Dim ond cerddwyr profiadol gyda dillad ac esgidiau priodol yn ogystal â map ddylai fentro.

Llwybrau eraill
I gael blas ar Gadair Idris, gallwch ddilyn rhan o Llwybr Minffordd. Ewch cyn belled â'r Goedwig Law Geltaidd i fwynhau golygfeydd ar draws y ceunant neu ewch ymlaen at y bont lechi dros Nant Cadair i gael cip ar droedd agored y mynydd. Edrychwch ar y panel gwybodaeth wrth ymyl y ganolfan ymwelwyr i gael mwy o wybodaeth am y llwybrau hyn. Sylwch fod y ddau llwybr hyn yn anodd ac yn golygu dringo grisiau creigiog serth.

Canolfan ymwelwyr ac ystafell de
Mae'r ganolfan ymwelwyr a'r ystafell de (yn agored yn dymhorol) 250 metr o'r maes parcio. Darganfyddwch ddaearog a bywyd gwyllt y warchodfa a chwedl Idris Gawr. Mae ffilm o'r awyr am y mynydd a lluniau byw o'r ystlumod pedol lleiaf sy'n clwydo yn y to.

Gwybodaeth hygyrchedd

Mae gan y maes parcio leoedd i ddeiliaid bathodynnau glas. Mae'r llwybr i'r ganolfan ymwelwyr a dau o'r llwybrau cerdded yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae'r ganolfan ymwelwyr a'r ystafell de yn gwbl hygyrch ac mae yno doiledau hygyrch.

Amseroedd agor

Mae'r ganolfan ymwelwyr, yr ystafell de a'r toiledau yn agored yn ystod gwyliau'r ysgol ac ar benwythnosau rhwng y Pasg a mis Medi.

Rheolir y toiledau yn y maes parcio gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac maent yn agored bob dydd.

Sut i gyrraedd yma

Mae Cadair Idris 7 milltir i'r de o Ddolgellau.
Cymerwch yr A487 o Ddolgellau tuag at Fachynlleth a throwch i'r dde at y B4405. Mae mynedfa maes parcio Dôl Idris ar y dde yn syth wedi i chi droi. Mae'r maes parcio yn cael ei reoli gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Cyfeirnod grid OS SH 732 115 / rhif map OS OL 23
Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan

33



21

Coedwig Dyfi (Nant Gwernol)

Coetir hardd gyda hanes mwyngloddio llechi a rheilffordd stêm

Daw enw coetir Nant Gwernol, sy'n gorwedd ar ymyl pentref Abergynolwyn, o geunant afon creigiog gyda rhaeadrau byrlymus. Mae ein llwybrau cerdded yn mynd drwy'r coetir ac yn datgelu olion chwarel lechi. Mae gan Nant Gwernol ac Abergynolwyn orsafoedd ar reilffordd stêm Talyllyn; mae gorsaf Nant Gwernol yn y coetir. Mae toiledau a chaffi yn neuadd bentref Abergynolwyn ac yng ngorsaf Abergynolwyn, y cyfeirir ati gan arwydd ar y ffordd ychydig ar ôl neuadd y pentref.

Llwybrau cerdded
Llwybr y Rhaeadr
(1 filltir/1.7 km, cymedrol)

Dringwch am i fyny wrth ochr yr afon fywiog cyn croesi pont i'r hen dramffordd - edrychwch am olion gêr halio'r hen chwarel.

Llwybr y Chwarelwyr
(3¼ milltir/5.1 km, anodd)

Wedi'r dringfeydd hir a'r disgyniadau serth cewch olygfeydd eang o Gadair Idris. Ceir paneli gwybodaeth



a safleoedd gwrando ger yr adfeilion yn adrodd hanes y chwarelwyr.

Sut i gyrraedd yma

Mae Nant Gwernol 12 milltir i'r de o Ddolgellau. Cymerwch yr A487 o Ddolgellau tuag at Fachynlleth a throwch i'r dde ar y B4405 i Abergynolwyn. Parciwch yn neuadd bentref Abergynolwyn a dilynwch y saethau glas i fyny'r ffordd serth y tu ôl i'r neuadd bentref i'r coetir lle mae'r llwybrau cerdded yn dechrau. Gall teithwyr ar reilffordd stêm Talyllyn ymuno â'r llwybrau cerdded o orsaf Nant Gwernol. Mae Llwybr Cyswllt y Gorsafoedd (1 filltir/1.8 km) yn llwybr cerdded eithaf serth o orsaf Abergynolwyn i orsaf Nant Gwernol.

Cyfeirnod grid OS SH 681 067 / rhif map OS OL 23

Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



22

Coedwig Dyfi (Foel Friog)

Llwybr cerdded gyda golygfeydd gwych mewn coetir diarffordd

Mae Foel Friog wedi'i leoli yn nhirwedd drawiadol Coedwig Dyfi, ger pentref Aberllefenni, ac mae'n hawdd dod o hyd iddo o'r A487. Mae'r safle picnic hardd wrth ymyl yr afon ac mae llwybr cerdded cylchol wedi'i arwyddo i gopa Pen y Bryn. Yn ystod y ddeunawfed ganrif, chwarela llechi oedd y brif alwedigaeth yn yr ardal ond, pan ddechreuodd y chwareli gau yn yr ugeinfed ganrif, plannodd y Comisiwn Coedwigaeth goed ar y brynau. Mae'r coed wedi trawsnewid y dirwedd ond, os edrychwch chi'n ofalus, gallwch weld adfeilion adeiladau'r chwareli.

Llwybr cerdded
Llwybr Pen y Bryn
(2 filltir/3.2 km, anodd)

Mae Llwybr Pen y Bryn yn mynd i fyny llwybr serth drwy'r coed cyn ymuno â thrac coedwig. Mae'n mynd heibio i adfeilion ffermydd ac olion chwarel. Mae golygfeydd gwych o'r copa cyn i'r llwybr ddisgyn drwy goetir derw hynafol. Mae'n dychwelyd i'r maes parcio ar lwybr ceffylau ar hyd dyffryn yr afon.

Llwybr cyfagos
Mae llwybr beicio mynydd Climachx (15 km, gradd goch) yng Nghoedwig Dyfi ger Ceinws, ychydig oddi ar yr A487. Caiff ei reoli gan grŵp cymunedol lleol, ac mae enw mawr ganddo oherwydd ei drac sengl a'i lethr terfynol. Dilynwch yr arwyddion o Geinws i'r maes parcio.



Sut i gyrraedd yma

Mae maes parcio Foel Friog oddi ar yr A487 rhwng Dolgellau a Machynlleth. Gadewch yr A487 pan welwch yr arwyddbyst i Aberllefenni (mae'n haws ymdrin â'r troad siarp hwn wrth ddod o gyfeiriad y de). Ewch drwy Gorris ac mae maes parcio Foel Friog ar y dde, yn syth cyn arwydd pentref Aberllefenni.

Cyfeirnod grid OS SH 769 092 / rhif map OS 215

Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



23 Coedwig Dyfi (Tan y Coed)

Teithiau cerdded byr drwy goetir at raeadr



Mae Tan y Coed yn goetir a safle picnic hawdd ei leoli, ychydig oddi ar yr A487. Dechreuodd y Comisiwn Coedwigaeth blannu'r coetir ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, gan fod yr ymdrech ryfel wedi defnyddio'r cwbl o bren Prydain. Mae'r llwybrau cerdded byr yn dringo drwy'r coed ac yn mynd am y rhaeadr ac mae llwybr darganfod anifeiliaid ar gyfer ymwelwyr iau. Mae meinciau picnic ar y llwybrau yn ogystal ag ar y bryncynau glaswelltog o amgylch y maes parcio.

Llwybrau cerdded

Llwybr Cwm Cadian (1 filltir/1.8 km, cymedrol)

Taith gerdded drwy'r coed ffawydd sy'n dod yn ôl heibio'r rhaeadr ac wrth ochr yr afon.



Llwybr Darganfod Anifeiliaid (1 filltir/1.8 km, cymedrol)

Codwch daflen o'r peiriant yn y maes parcio a dilynwch y cliwiau ar hyd llwybr Cwm Cadian i ddod o hyd i'r anifeiliaid sy'n cuddio yn y goedwig.

Llwybr Tan y Coed (1½ milltir/2.3 km, cymedrol)

Taith gerdded ychydig yn hirach am i fyny drwy'r coetir cyn disgyn at y rhaeadr a dilyn yr afon yn ôl i'r maes parcio.

Sut i gyrraedd yma

Mae Tan y Coed 12 milltir i'r de o Ddolgellau. Mae arwydd am faes parcio Tan y Coed oddi ar yr A487 rhwng Dolgellau a Machynlleth, i'r de o Gorris ac i'r gogledd o Bantperthog.

Cyfeirnod grid OS SH 755 053 / rhif map OS OL 23
Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



24 Coedwig Dyfnant (Coed Pont Llogel)

Taith gerdded hawdd ar lannau'r afon drwy goetir



Mae Pont Llogel yn goetir bach o fewn Coedwig Dyfnant ac yn fan cychwyn taith ar lan yr afon. Mae dau lwybr hirach yn gadael o'r maes parcio hwn ac mae Llwybr Cenedlaethol Ffordd Glyndŵr yn mynd drwy'r coetir. Mae Coedwig Dyfnant hefyd yn enwog am ei chyfleusterau marchogaeth a gyrru car a cheffyl.

Llwybr cerdded

Llwybr Pont Llogel (1 filltir/1.5 km yno ac yn ôl, hawdd)

Taith gerdded gysgodol drwy goetir ar hyd rhan o Lwybr Cenedlaethol Ffordd Glyndŵr. Ymlaciwch ar y faenc cyn troi yn ôl ar hyd yr un llwybr. Os hoffech daith gerdded gylchol anoddach, dilynwch y llwybr serth sydd ychydig yn hirach yn ôl drwy'r coed.

Llwybrau eraill

Mae Llwybr Cenedlaethol Ffordd Glyndŵr yn mynd drwy Goedwig Dyfnant.

Mae Taith Gerdded Ann Griffiths (7 milltir/11 km) yn

daith gerdded wedi'i harwyddo yn coffáu'r emynydd enwog. Mae Llwybr Pererindod Melangell (15 milltir/24 km) yn olrhain hen lwybr y pererinion. Rheolir y ddau gan Gyngor Sir Powys ac maent ar y map OS.

Marchogaeth ceffylau yng Nghoedwig Dyfnant

Mae Llwybrau'r Enfys yn cynnig bron i 100 milltir o lwybrau wedi'u harwyddo o droeon byr i deithiau ar gyfer diwrnod cyfan. Mae'r llwybrau marchogaeth yn dechrau ym maes parcio Penyffordd ac mae'r llwybrau gyrru car a cheffyl yn dechrau ym maes parcio Hendre. Gweler gwefan Llwybrau'r Enfys.

Sut i gyrraedd yma

Mae Pont Llogel 24 milltir i'r dwyrain o Ddolgellau.

Dilynwch yr A470 o Ddolgellau tuag at Fachynlleth, ac yna cymerwch yr A458 i'r Trallwng. Trowch i'r chwith at y B4395 yn Llangadfan, gydag arwydd ar gyfer Llyn Efyrynwy. Mae maes parcio Coed Pont Llogel ar y dde ar ôl y bont gerrig i mewn i bentref Pont Llogel.

Cyfeirnod grid OS SJ 032 154 (Coed Pont Llogel) / rhif map OS 239

Gweler yr allwedd i'r symbolau ar y map sy'n agor allan



Llwybrau pellter hir yng Ngogledd Cymru

Mae gan Ogledd Cymru dri llwybr pellter hir, a gellir cerdded pob un ohonynt mewn darnau pytiog. Mae rhai rhannau yn agored i feicwyr a marchogion.

Mae **Llwybr Clawdd Offa** yn ymestyn am 177 milltir o Gas-gwent i Brestatyn. Mae'r Llwybr Cenedlaethol hwn yn dilyn y ffin â Lloegr a'r cloddwaith enfawr a adeiladwyd gan y Brenin Offa yn yr wythfed ganrif. Yn y rhan ogleddol mae creigiau ysblennydd, ucheldiroedd grugog a bryngaerau o'r Oes Haearn, ac mae llawer o'r llwybr yn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.



Ffordd Glyndŵr yw'r Llwybr Cenedlaethol 135 milltir o hyd o Drefyclo i'r Trallwng. Mae wedi'i enwi ar ôl tywysog Cymraeg o'r bymthegfed ganrif, ac mae'r llwybr hwn o siâp pedol yn ymlwybro drwy gefn gwlad, rhostir a choetir. Mae'n mynd heibio i drefi marchnad, pentrefi tawel ac ysblander Llyn Efyrrwy ar hyd y ffordd.

Mae'r tri llwybr hir hyn unai'n mynd drwy neu'n rhedeg ochr yn ochr â rhai o'n Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a'n coetiroedd. Er mwyn ymuno ag un o'r llwybrau, chwiliwch am arwydd mes y Llwybr Cenedlaethol neu symbol cragen y ddraig Llwybr Arfordir Cymru sydd wedi eu nodi yn y daflen.



Mae **Llwybr Arfordir Cymru** yn teithio o amgylch yr arfordir ar ei lwybr 870 milltir o Gaer i Gas-gwent. Mae'n llawn amrywiaeth yn y gogledd o arfordir gogoneddus Ynys Môn i natur wyllt Penrhyn Llŷn. Mae hefyd yn cynnig golygfeydd creigiog a dramatig, cipolwg ar gestyll canoloesol a chefnidir trawiadol Parc Cenedlaethol Eryri.





PARCHU. DIOGELU. MWYNHAU.

Mae'r Cŏd Cefn Gwlad yn eich helpu i barchu, diogelu a mwynhau cefn gwlad, gan eich galluogi i gael y gorau o'ch ymweliad.

Parchu pobl eraill

- Cofiwch ystyried y gymuned leol a phobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored
- Gadewch gatiau ac unrhyw eiddo fel y maent a chadwch at y llwybr, oni bai bod mynediad ehangach ar gael

Diogelwch yr amgylchedd naturiol

- Peidiwch â gadael unrhyw ôl o'ch ymweliad ac ewch â'ch sbwriel gartref gyda chi
- Cadwch eich cŵn dan reolaeth lwybr

Mwynhewch yr awyr agored a chymerwch ofal

- Cynlluniwch ymlaen llaw a byddwch yn barod
- Gwrandewch ar gyngor a dilynwch yr arwyddion lleol

Teulu'r Cŏd Cefn Gwlad

Mae teulu'r Cŏd Cefn Gwlad yn cynnwys codau penodol ar gyfer rhai o'r gweithgareddau cyffrous y gallech gymryd rhan ynddynt, fel nofio gwyllt, pysgota a chanŵio.

Yn ogystal, ceir cod cerdded cŵn ar gyfer troeon diogel a hapus gyda'ch ci, a chod defnyddwyr llwybrau a fydd yn eich helpu i gadw'n ddiogel a rhannu'r awyr agored gydag eraill.

LAWRLWYTHWCH EICH COPI o'r Cŏd Cefn Gwlad
www.cyfoethnaturiol.cymru



Peidiwch
â rhoi cyfle
i bla a haint



Chi yw'r amddiffyniad gorau yn erbyn clefyd sydd gan ein coed.
Gallai mwd, planhigion a dail fod yn cario clefyd. Gadewch ddeunyddiau naturiol ar y safle a glanhewch eich esgidiau, beic, unrhyw deganau neu offer, a'ch ci ar ôl ymweld â'r goedwig.

DEWISWCH LLWYBR SY'N ADDAS I CHI

Graddau llwybrau cerdded

Rydym wedi nodi pellter a gradd pob taith gerdded yn y daflen hon er mwyn eich helpu i benderfynu os yw'r daith honno'n addas ar eich cyfer chi. Darllenwch isod i weld beth yw ystyr pob gradd.

GRADD	BETH MAE'N EI OLYGU
Hygyrch	Teithiau cerdded ar gyfer pawb, yn cynnwys pobl â chadeiriau olwyn a bygis, sy'n defnyddio llwybrau hygyrch. Gellir gwisgo esgidiau neu dreinys cyfforddus. Efallai y bydd angen cymorth i wthio cadeiriau olwyn ar rai rhannau o'r llwybr.
Hawdd	Teithiau cerdded ar gyfer unrhyw un sydd am wella eu lefel ffitrwydd ar lwybrau sy'n gyffredinol wastad ond all fod â rhywfaint o rannau garw, anwastad. Addas ar gyfer bygis, os gellir eu codi dros ambell i rwystr. Gellir gwisgo esgidiau neu dreinys cyfforddus.
Cymedrol	Teithiau cerdded ar gyfer pobl sydd â lefel ffitrwydd cymharol dda. O bosibl, gall gynnwys rhywfaint o lwybrau heb wyneb, a thir agored a serth. Argymhellir gwisgo esgidiau cryfion a dillad cynnes sy'n dal dŵr.
Anodd	Teithiau cerdded ar gyfer cerddwyr profiadol sydd â lefel ffitrwydd da. Gall gynnwys bryniau serth iawn a thir garw. Mae esgidiau cerdded a dillad cynnes sy'n dal dŵr yn hanfodol.

Dylech hefyd ddarllen y panel ar ddechrau'r llwybr cerdded ac yna dilyn yr arwyddion ar y llwybr.

Graddau llwybrau beiciau mynydd

Rydym wedi nodi pellter a gradd pob llwybr beiciau mynydd yn y daflen hon. Darllenwch y wybodaeth graddio isod i wneud yn siŵr eich bod yn dewis llwybr beiciau mynydd sydd o fewn eich gallu. Ceir mwy o fanylion am nodweddion technegol, graddiant ac wynebau'r llwybrau ar ein gwefan.

GRADD	ADDAS AR GYFER
Ffordd Goedwig neu debyg	Ystod eang o feicwyr. Y mwyafrif o feiciau a hybridiau. Y gallu i ddarllen map o gymorth. Efallai y bydd, neu na fydd, arwyddbyst ar y llwybrau hyn.
Gwyrdd Hawdd	Beicwyr ifanc/hewydd. Sgiliau beicio sylfaenol yn angenrheidiol. Y mwyafrif o feiciau a hybridiau. Gellir mynd â threlars ar rai llwybrau gwyrdd.
Glas Cymedrol	Beicwyr/beicwyr mynydd canolradd gyda sgiliau beicio oddi ar y ffordd sylfaenol. Beiciau mynydd neu hybridiau.
Coch Anodd	Beicwyr mynydd medrus gyda sgiliau beicio oddi ar y ffordd da. Addas ar gyfer beiciau mynydd oddi ar y ffordd o safon dda.
Du Difrifol	Beicwyr mynydd arbenigol sydd wedi hen arfer â llwybrau corfforol, anodd. Beiciau mynydd oddi ar y ffordd o safon uchel.

Dylech hefyd ddarllen y panel ar ddechrau pob llwybr beic mynydd am fwy o fanylion ac yna dilyn yr arwyddion ar y llwybr.

- 1 Coed Moel Famau
P
 - 2 Coed Llangwyfan
P
 - 3 Coed Nercwys
P
 - 4 Coedwig Clocaenog (Bod Petryal)
Clocaenog Forest (Bod Petryal)
P
 - 5 Cronfa Ddŵr Alwen
Alwen Reservoir
P
 - 6 Gwarchodfa Natur a Choedwig
Genedlaethol Niwbwrch
Newborough National Nature Reserve and Forest
P P
 - 7 Gwarchodfa Natur Genedlaethol
Cors Bodeilio
Cors Bodeilio National Nature Reserve
P
 - 8 Gwarchodfa Natur Genedlaethol
Coedydd Aber
Coedydd Aber National Nature Reserve
P
 - 9 Gwarchodfa Natur Genedlaethol
Cwm Idwal
Cwm Idwal National Nature Reserve
P VC
 - 10 Parc Coedwig Gwydir
(Betws-y-coed)
Gwydir Forest Park
(Betws-y-coed)
P
 - 11 Parc Coedwig Gwydir
(Mwynglawdd Cyffty a Hafna)
Gwydir Forest Park
(Cyffty Mine and Hafna)
P
 - 12 Parc Coedwig Gwydir
(Cae'n y Coed a Thy'n Llwyn)
Gwydir Forest Park (Cae'n y Coed
and Ty'n Llwyn)
P
 - 13 Llynnoedd Parc Coedwig Gwydir
Gwydir Forest Park Lakes
P
 - 14 Parc Coedwig Gwydir (Mainc Lifio)
Gwydir Forest Park (Sawbench)
P
 - 15 Gwarchodfa Natur Genedlaethol
Yr Wyddfa
Snowdon National Nature Reserve
P VC
 - 16 Coedwig Beddgelert
Beddgelert Forest
P
 - 17 Gwarchodfa Natur Genedlaethol
Coedydd Maentwrog
(Coed Llyn Mair)
Coedydd Maentwrog National
Nature Reserve (Coed Llyn Mair)
P
 - 18 Parc Coed y Brenin
(Canolfan Ymwelwyr)
Coed y Brenin Forest Park
(Visitor Centre)
P
 - 19 Gwarchodfa Natur Genedlaethol
Morfa Dyffryn
Morfa Dyffryn National Nature
Reserve
P
 - 20 Gwarchodfa Natur Genedlaethol
Cadair Idris
Cadair Idris National Nature
Reserve
P VC
 - 21 Coedwig Dyfi (Nant Gwernol)
Dyfi Forest (Nant Gwernol)
 - 22 Coedwig Dyfi (Foel Friog)
Dyfi Forest (Foel Friog)
P
 - 23 Coedwig Dyfi (Tan y Coed)
Dyfi Forest (Tan y Coed)
P
 - 24 Coedwig Dyfnant
(Coed Pont Llogel)
Dyfnant Forest
(Pont Llogel Wood)
P



Allwedd Key

- | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
|  | Parcio
Parking |  | Llwybr cerdded
Walking trail |  | Llwybr darganfod
Discovery trail |
|  | Parcio (tâl)
Parking (charge) |  | Llwybr hygrych
Accessible trail |  | Cuddfan bywyd gwyllt
Wildlife hide |
|  | Canolfan Ymwelwyr
Visitor Centre |  | Llwybr rhedeg
Running trail |  | Maes chwarae
Play area |
|  | Toileddau
Toilets |  | Llwybr beicio mynydd
Mountain bike trail |  | Lle picnic
Picnic area |
|  | Toileddau hygrych
Accessible toilets |  | Llwybr marchogaeth
Horse riding trail |  | Cyfyngiadau cŵn
Dog restrictions |
|  | Caffi
Café |  | Llwybr heini
Trim trail |  | Llwybr Cenedlaethol
National Trail |
|  | Lluniaeth
Refreshments |  | Cyfeiriannu
Orienteering |  | Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path |

